

IS-DDEDDFAU

Llyfrgelloedd

A wneir o dan

**Adran 19 o Ddeddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Cyhoeddus 1964
gan**

GYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL

1. Yn yr Is-ddeddfau hyn, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall
 - a. ystyr "y Ddeddf" yw Ddeddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Cyhoeddus 1964;
 - b. ystyr "tâl" yw unrhyw dâl a godir yn unol â'r Rheoliadau;
 - c. ystyr "plentyn" yw person o dan 13 oed;
 - ch. mae "sefyllfa o argyfwng" yn cynnwys sefyllfaoedd lle mae angen gwacáu llyfrgell neu ran o lyfrgell am resymau diogelwch neu oherwydd bygythiad tân neu beryglon ac arferion eraill a galwadau diangen mewn perthynas â hynny;
 - d. ystyr "cyfeiriad hysbys diwethaf" yw'r cyfeiriad olaf a gedwir ar gofnodion yr awdurdod llyfrgell;
 - dd. ystyr "awdurdod llyfrgell" yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful;
 - e. Ystyr "llyfrgell" yw:
 - i. mangre a feddiennir gan awdurdod llyfrgell ac sy'n fangre lle mae'r awdurdod yn darparu cyfleusterau llyfrgell, wrth ddarparu gwasanaeth llyfrgell cyhoeddus, i aelodau'r cyhoedd;
 - ii. unrhyw gerbyd a ddefnyddir gan yr awdurdod llyfrgell at ddiben darparu gwasanaeth llyfrgell cyhoeddus i aelodau'r cyhoedd ac sy'n gerbyd y mae cyfleusterau ar gael ynddo;ac mae'n cynnwys unrhyw ran o fangre neu gerbydau o'r fath;
 - f. ystyr "y swyddog llyfrgell" yw unrhyw swyddog a gyflogir gan yr awdurdod llyfrgell mewn cysylltiad â'i swyddogaethau o dan y Ddeddf;
 - ff. mae "eiddo llyfrgell" yn cynnwys eiddo sy'n berchen i'r awdurdod llyfrgell neu a ddarperir at ddefnydd yr awdurdod llyfrgell p'un a yw ar gael gan yr awdurdod llyfrgell i'w ddefnyddio gan y cyhoedd ai peidio ac eiddo a gafwyd gan yr awdurdod llyfrgell i'w fenthyg i'r cyhoedd neu i'w ddefnyddio gan y cyhoedd;
 - g. ystyr "y Rheoliadau" yw Rheoliadau Ffioedd Llyfrgell (Cymru a Lloegr) 1991 OS 1991/2712;

- ng. mae geiriau sy'n pwysleisio'r rhywedd gwrywaidd yn cynnwys y fenywaidd, mae geiriau yn yr unigol yn cynnwys y lluosog a geiriau yn y lluosog yn cynnwys yr unigol;
- h. mae i ymadroddion a ddefnyddir, oni bai bod bwriad i'r gwrthwyneb yn ymddangos, yr ystyr a roddir iddynt yn y Ddeddf a'r Rheoliadau.
2. Ni fydd gweithred a gyflawnir mewn cysylltiad â chyflawni ei ddyletswydd yn briodol gan swyddog llyfrgell yn groes i'r Is-ddeddfau hyn.
 3. Ni chaiff unrhyw berson roi enw neu gyfeiriad ffug at ddiben cael mynediad i'r llyfrgell neu at ddiben defnyddio unrhyw gyfleuster llyfrgell.
 4. Ni chaiff unrhyw un sydd, ym marn resymol swyddog llyfrgell, yn sarhaus o aflan ei hun neu ei ddillad, neu'r ddau, aros yn y llyfrgell.
 5. Ac eithrio gyda chaniatâd swyddog llyfrgell, ni chaiff neb:
 - a. achosi neu ganiatáu i unrhyw gi (ac eithrio ci gwaith sy'n hebrwng person anabl) neu anifail arall sy'n perthyn iddo neu sydd o dan ei reolaeth fynd i mewn i'r llyfrgell neu aros ynddi;
 - b. ddod â cherbyd olwyn neu gerbyd cludo i mewn i unrhyw ran o'r llyfrgell heblaw cadair olwyn, pram, cadair wthio neu droli siopa;
 - c. fynd i mewn neu aros mewn unrhyw ran o'r llyfrgell y byddai neu y dylai person rhesymol wybod ei fod wedi'i wahardd i'r cyhoedd; neu
 - ch. aros yn y llyfrgell ar ôl yr amser a bennwyd ar gyfer ei chau.
 6. Ni chaiff neb aros yn y llyfrgell ar ôl i sefyllfa o argyfwng gael ei gwneud yn hysbys iddo.
 7. Ni chaiff neb, oni bai y caniateir yn benodol gan swyddog llyfrgell, fynd ag unrhyw eiddo llyfrgell o'r llyfrgell na cheisio mynd ag ef o'r llyfrgell neu heibio i ddesg wirio neu bwynt diogelwch.
 8. Ni chaiff neb, heb esgus cyfreithlon, ddinistrio neu ddifrodi unrhyw eiddo llyfrgell sy'n bwriadu dinistrio neu ddifrodi eiddo o'r fath neu fod yn ddi-hid ynghylch a ddylid dinistrio neu ddifrodi eiddo o'r fath.
 9. Ni chaiff neb ymddwyn mewn modd afreolus yn y llyfrgell, defnyddio iaith dreisgar, sarhaus neu anweddus ynddi, nac achosi neu wneud unrhyw beth sy'n debygol o achosi niwed i unrhyw berson neu eiddo arall yn fwriadol neu'n fyrbwyll.
 10. Ni chaiff neb gysgu yn y llyfrgell ar ôl i swyddog llyfrgell ofyn iddo beidio â gwneud hynny.
 11. Ni chaiff neb aros mewn llyfrgell heb wneud defnydd priodol o gyfleusterau'r llyfrgell ar ôl i swyddog llyfrgell ofyn iddo wneud defnydd priodol o'r cyfleusterau.

12. Ni chaiff neb gymryd rhan mewn sgwrs glywadwy mewn unrhyw ran o'r llyfrgell sydd wedi'i neilltuo fel adran gyfeirio, ardal astudio neu ar gyfer darllen ar ôl i swyddog llyfrgell ofyn iddo beidio â gwneud hynny.
13. Ni chaiff neb rwystro unrhyw swyddog llyfrgell yn fwriadol neu'n ddi-hid wrth iddo gyflawni ei ddyletswydd nac yn fwriadol neu'n fyrbwyll darfu, rhwystro, torri ar draws, cam-drin neu gythruddo unrhyw berson arall sy'n defnyddio'r llyfrgell yn briodol.
14. Ni chaiff neb, heb ganiatâd swyddog llyfrgell, arddangos, dosbarthu, na gadael unrhyw fil, placard, hysbysiad neu ddogfen arall yn y llyfrgell yn fwriadol.
15. Ni chaiff neb, heb ganiatâd y prif swyddog llyfrgell, gynnig unrhyw beth i'w werthu yn y llyfrgell na chanfasio na cheisio llofnodion ar gyfer deisebau.
16. Ni chaiff unrhyw un sydd â gofal plentyn ei adael heb oruchwyliaeth yn y llyfrgell heb ganiatâd y swyddog llyfrgell.
17. Ni chaiff neb ysmegu, cynnau matsys na defnyddio taniwr sigarét o fewn y llyfrgell nac ym mynedfeydd ac allanfeydd y llyfrgell.
18. Ni chaiff neb mewn unrhyw ran o'r llyfrgell anadlu unrhyw sylwedd gwenwynig at ddiben achosi meddwdod na chymryd unrhyw gyffur rheoledig fel y'i diffinnir yn Atodlen 2 i Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 ac eithrio cyffuriau a ddosberthir ar ei gyfer ac yn unol â phresgripsiwn a roddwyd iddo gan feddyg o dan ac yn unol â'r Ddeddf a grybwyllwyd.
19. Ni chaiff neb, ac eithrio gyda chaniatâd swyddog llyfrgell, gael lluniaeth yn y llyfrgell.
20. Ni chaiff neb, ac eithrio gyda chaniatâd swyddog llyfrgell, achosi na chaniatáu i unrhyw ffôn symudol, cyfrifiadur cludadwy, neu offer trydanol arall, neu gyfarpar ar gyfer derbyniadau darlledu sain neu ar gyfer atgynhyrchu sain, gael eu gweithredu mewn unrhyw ran o'r llyfrgell y mae gan y cyhoedd fynediad iddi.
21. Ni chaiff unrhyw berson sydd
 - a. ag eiddo llyfrgell yn ei feddiant ar ôl y dyddiad y dylai fod wedi ei ddychwelyd, a
 - b. methu â thalu unrhyw dâl,
 oni bai gyda chaniatâd penodol swyddog llyfrgell, fenthyg unrhyw eiddo llyfrgell arall.
22. Rhaid i unrhyw berson
 - a. sydd wedi benthycu eiddo'r llyfrgell a fyddai'n cael ei ddychwelyd yn hwyr pe bai'n cael ei ddychwelyd, ac sydd wedi derbyn Hysbysiad gan yr awdurdod llyfrgell yn mynnu bod eiddo'r llyfrgell yn dychwelyd, yn dychwelyd eiddo'r llyfrgell i'r llyfrgell y'i benthycwyd ohoni o fewn 14 diwrnod o'r dyddiad y cyflwynwyd yr Hysbysiad.

- b. At ddibenion yr is-ddeddf hon, gellir cyflwyno Hysbysiad i unrhyw berson drwy ei draddodi iddo, neu drwy ei adael yn ei gyfeiriad hysbys diwethaf, neu drwy ei anfon drwy'r post wedi'i gyfeirio ato yn y cyfeiriad hwnnw.
23. Ac eithrio o ran Is-ddeddfau 8 a 18, bydd unrhyw berson sydd:
- a. yn torri unrhyw un o'r Is-ddeddfau uchod bydd yn agored i'w erlyn gan yr awdurdod llyfrgell a bydd yn agored o'i gollfarnu'n ddiannod i ddirwy heb fod yn fwy na lefel 2 ar y raddfa safonol mewn perthynas â phob trosedd.
 - b. mewn unrhyw achos sy'n ymwneud â thorri Is-ddeddfau 8 a 18, gellir dwyn erlyniad o dan Ddeddf Difrod Troseddol 1971 neu Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 yn y drefn honno.
24. Mae unrhyw un sy'n defnyddio cyfleusterau cyfrifiadurol y llyfrgell yn gwneud hynny o dan Bolisi Defnydd Derbyniol y llyfrgell.
25. Bydd unrhyw un sy'n mynd yn groes i'r Polisi Defnydd Derbyniol:
- a. yn agored i erlyniad gan yr awdurdod llyfrgell ac yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy heb fod yn uwch na lefel 2 ar y raddfa safonol mewn perthynas â phob trosedd, neu
 - b. yn agored i gael ei adrodd i'r Heddlu heb rybudd mewn achosion o gamddefnydd difrifol neu droseddol o'r cyfrifiadur a/neu gyfleusterau rhyngwyd.
26. Gall swyddog llyfrgell wahardd unrhyw un sy'n torri unrhyw un o'r Is-ddeddfau uchod o unrhyw lyfrgell a gynhelir gan yr awdurdod o dan y Ddeddf.

Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, ar ddyfodiad yr Is-ddeddfau hyn i weithrediad, bydd yr Is-ddeddfau yn ymwneud â llyfrgelloedd a wnaed gan Faer, Henaduriaid a Bwrdeisiaid Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ar y 29ain dydd o Fai 1958 yn ac a gadarnhawyd gan y Gweinidog Addysg ar yr 17eg dydd o Fehefin 1958 yn cael eu dirymu.

SÊL GYFFREDIN CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL

a osodwyd ar hyn yn unol â Phenderfyniad y Cyngor a gynhaliwyd ar ... dydd mis 2005

Llofnodwr Awdurdodedig

.....

Gareth W Chapman
Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gwasanaeth Cwsmer Corfforaethol
Canolfan Ddinesig
Stryd y Castell